YSGOL BRYNREFAIL

SBOTOLAU AR : LILY

CYSTADLEUAETH TLWS YR IFAINC

Enillydd Tlws yr Ifainc eleni oedd Lili, ac yn y llun gwelir Lili sef Mared Ynyr o flwyddyn 9 yn eistedd yn hedd ei chadair. Cafodd ein gohebydd air sydyn.

Wel pa ardal yn y cyffiniau sy'n dathlu dy lwyddiant?

Wel gobeithio pentref Waunfawr ac Ysgol Gynradd Waunfawr lle gefais fy addysg gynnar.

Yr wyt yn astudio nifer o bynciau gwahanol ar hyn o bryd pa un sydd orau gennyt.

O Cymraeg yn bendant.

Mi gefais y fraint o deipio dy stori, o ble daeth yr ysbrydoliaeth i sgwennu stori mor ddyrys?

Wel cefais fy ysbrydoli pan welais y teitl ond rhaid i mi gyfaddef bod y stori wedi bod yn chwyrlio trwy fy ymennydd ers tipyn.

A thu allan i fywyd Ysgol beth sydd yn dy ymddiddori?

Wel chwarae piano, dawnsio disgo a chymdeithasu.

A'i dyma'r tro cyntaf i ti gystadlu?

Ia, yn y gystadleuaeth hon ond rwyf wedi cystadlu pob blwyddyn yn eisteddfod yr Ysgol ac mewn eisteddfodau lleol hefyd.

Oes traddodiad o gystadlu yn y teulu felly?

Wel oes. Fe enillodd fy chwaer hun Erin y tlws hwn y flwyddyn ddiwethaf ac mae fy mam wedi ennill y Fedal Ddrama yn y Genedlaethol.

A sut deimlad oedd sefyll yng nghanol y gynulleidfa pan alwyd dy enw?

Wel coeliwch neu beidio rhown i eisiau chwerthin o'n i'n teimlo mor hunanymwybodol ond roedd o'n grêt o deimlad hefyd.